Polisi

# Gwrth-fwlio

Ysgol Gymraeg Cwmbrân

Medi 2023

# <u>Polisi gwrth fwlio Ysgol Gymraeg Cwmbrân:</u>

(Addaswyd ym mis Medi, 2023)

*Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â pholisïau eraill yr ysgol megis ein polisi diogelwch ar y we a'n polisi amddiffyn plant.*

Prif bwrpas y polisi hwn yw i sicrhau bod holl staff, disgyblion a rhan ddeiliaid yr ysgol yn ymwybodol o'r hyn y credwn ni am fwlio yn ein hysgol ni. Dylai holl lywodraethwyr, aelodau o staff, disgyblion, rhieni/gwarchodwyr a llywodraethwyr gael dealltwriaeth o beth yw bwlio a dylent wybod beth yw ein polisi ni ar fwlio. Fel ysgol, rydym yn derbyn bod bwlio yn fater difrifol iawn ac rydym yn benderfynol o daweli meddwl rhieni / gwarchodwyr a dangos ein bod yn eu cefnogi os oes achos o fwlio yn cael ei gofnodi. Bydd unrhyw achosion yn cael eu cofnodi ar SIMS sef system ganolog yr ysgol.

Dylai ysgol fod yn lle y gall pob disgybl ac aelod o staff deimlo'n ddiogel ynddi bob amser. Yr hyn mae'n rhaid i ni sicrhau yw nad oes disgybl yn cael cam cyson gan ddisgybl neu grŵp o ddisgyblion, sef bwlio.

**Nod ac amcanion:**

<u>Prif amcanion y polisi hwn yw i:</u>

- leihau bwlio;
- danlinellu camau pendant i'w dilyn os oes achos o fwlio yn ymddangos yn ein hysgol;
- allu delio ag achosion o fwlio yn gyflym ac yn effeithiol.

**Diffiniad o fwlio:**

Nid yw bwlio yn hawdd iawn i'w ddiffinio. Y diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru yw:

*'Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy'n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy'n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol.'*

*Mae bwlio yn wahanol i ddadl, ymladd neu gweryl rhwng ffrindiau oherwydd:*

- *mae'n fwriadol;*
- *bydd yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro fel arfer;*
- *ceir canfyddiad o anghydbwysedd grym rhwng y tramgwyddwr a'r targed;*
- *bydd bwlio yn creu teimladau o ofid, ofn, unigrwydd, cywilydd a bod yn ddiymadferth.*

Yn nhermau'r ysgol hon, credir bod bwlio yn amharu ar ethos yr ysgol ac felly yn groes i bopeth rydym yn gweithio tuag ato. Nid ydym yn fodlon derbyn ymddygiad o'r fath yn ein hysgol ni gan ein bod ni eisiau i bob unigolyn deimlo'n saff ac yn hapus yn yr ysgol ar bob adeg.

**Mathau gwahanol o fwlio:**

Noda Lywodraeth Cymru:

• ***corfforol*** *– cicio, baglu neu wthio rhywun, anafu rhywun, difrod ei eiddo neu wneud ystumiau i godi braw ar rywun*
• ***geiriol*** *– gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu godi braw*
• ***emosiynol*** *– ymddygiad sydd wedi'i fwriadu i ynysu neu niweidio rhywun neu godi cywilydd arno*
• ***anuniongyrchol*** *– gweithredoedd slei neu lechwraidd sy'n digwydd y tu ôl i gefn y targed neu roi sïon ar led*
• ***ar-lein*** *– defnyddio unrhyw fath o ddulliau technolegol, ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apiau i fwlio trwy gyfrwng negeseuon testun, negeseuon, delweddau neu fideo*
• ***niweidio perthnasoedd*** *– bwlio sy'n ceisio gwneud niwed i berthnasoedd neu statws cymdeithasol y targed: annog ei ffrindiau i droi cefn arno, elwa ar anghenion addysgol arbennig (AAA) neu salwch tymor hir unigolyn, targedu statws cymdeithasol ei deulu, ynysu neu godi cywilydd ar rywun yn fwriadol neu achosi helynt yn fwriadol i rywun*
• ***rhywiol*** *– cyffwrdd digroeso, bygythiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, yr hyn a elwir yn 'bornograffi dial' ac unrhyw gamddefnydd o luniau personol a chignoeth o'r dysgwr sy'n cael ei dargedu*
• ***cysylltiedig â rhagfarn*** *– bwlio dysgwr neu grwˆ p o ddysgwyr oherwydd rhagfarn. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â stereoteipiau neu ragdybiaethau ynghylch hunaniaeth. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig10. Gall rhagfarn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig a gall arwain at fwlio oherwydd amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefndir.*

Gall bwlio fod yn emosiynol, yn hiliol ac yn rhywiol yn ogystal. Yn aml, mae bwli yn dibynnu ar sawl un o'r rhain ond bwlio emosiynol sy'n ymddangos yn fwy cyson na bwlio corfforol fel patrwm cenedlaethol. Erbyn heddiw, dylid meddwl yn ogystal am Seibr Fwlio. Gan fod mwy a mwy o'n disgyblion ni bellach ar y we yn rheolaidd e.e. gyda chyfrifon e-bost neu'n rhan o wefannau rhwydweithio cymdeithasol megis instagram, tik tok ayyb, gellid disgwyl mwy o alw enwau trwy ddefnyddio dulliau tebyg. Rhaid cofio bod gan llawer o ddisgyblion ffonau symudol erbyn heddiw a gall rhain fod yn ffynhonnell o fwlio ar adegau hefyd e.e. mewn trafodaethau ar 'What's ap' ayyb.

Fel ysgol, mae'n ddyletswydd arnom ni i drafod y materion hyn gyda'r disgyblion a'u haddysgu am greulondeb bwlio o'r fath. Teimlwn ei fod yn ddyletswydd arnom i drafod

hwn gyda rhieni yn ogystal a threfnwn gyfarfod gyda PC Smith yn flynyddol er mwyn trafod materion tebyg.

Yn ogystal â hyn, rhoddir gwybodaeth i rieni / gwarchodwyr yn flynyddol ar faterion diogelwch ar y we a rhaid i holl ddisgyblion ein hysgol arwyddo cytundeb yn dweud na fyddent yn defnyddio'r we mewn ffordd annerbyniol. (Gwelir y polisi defnydd derbyniol o'r we.)

**Camau cyffredinol er mwyn atal bwlio:**

**Fel ysgol, mae'n ddyletswydd arnom ni i:**

1. Greu awyrgylch hapus a chynnes o fewn yr ysgol ble gall pob disgybl deimlo'n ddiogel.
2. Gwneud i'r disgyblion sylweddoli ein bod ni, fel staff, yn gofalu amdanynt yn ogystal.
3. Gwneud rhieni / gwarchodwyr yn ymwybodol fod polisi 'drws agored' yn yr ysgol ac ein bod bob amser yn barod i wrando ar unrhyw broblemau sy'n eu poeni ac yn barod i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn os yn bosibl.
4. Gwneud rhieni a gwarchodwyr yn ymwybodol o'r safonau o ddisgyblaeth a ddisgwylir yn yr ysgol a'r hyn fydd yn digwydd os na chedwir at y safonau hyn.
5. Sicrhau bod y Pennaeth yn derbyn gwybodaeth am unrhyw gwyn o fwlio gan riant / gwarchodwr neu ddisgybl.
6. Sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol ar gael yn ystod y dydd o fewn y dosbarth ac allan ar yr iard.
7. Sicrhau bod y Pennaeth yn barod i ddelio â'r broblem i ddechrau, gan obeithio y bydd hwn yn datrys y broblem. Os bydd parhad, bydd rhaid cysylltu â rhieni / gwarchodwyr y ddwy ochr er mwyn trafod strategaeth. Os na fydd gwelliant, bydd rhaid meddwl yn nhermau gwaharddiad.
8. Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol y gall bwlio fynd ymlaen o fewn y dosbarth neu yn ystod amseroedd egwyl heb iddynt glywed amdanynt. Bydd rhaid iddynt fod yn effro i arwyddion o newidiadau anghyffredin mewn unigolyn.

Canllawiau cyffredinol yw rhain gan obeithio na fydd angen i ni yn Ysgol Gymraeg Cwmbrân fyth eu dilyn. Gyda bwlio, yn aml iawn, y staff fydd y rhai olaf i fod yn ymwybodol fod rhywbeth yn mynd ymlaen. Bydd gwell siawns i rieni / gwarchodwyr sylwi bod rhywbeth yn bod. Anogir y rhieni a gwarchodwyr i gysylltu â'r ysgol yn syth os ydynt yn teimlo fod problem o unrhyw fath yn effeithio ar eu plentyn. Os nad yw'r ysgol yn ymwybodol fod problem, yna ni ellir disgwyl iddynt wneud unrhyw beth amdani. Os derbynnir gwybodaeth gan rieni / gwarchodwyr am broblem sy'n poeni eu plentyn, yna delir â'r broblem yn syth.

**Arwyddion o fwlio:**

- Disgybl yn troi'n fewnblyg;

- Disgybl yn newid cymeriad;
- Olion cam-drin corfforol;
- Amharodrwydd i ddod i'r ysgol;
- Amharodrwydd i fynd allan i chwarae;
- Safon gwaith yn dirywio;
- Iselder;
- Disgybl yn colli hyder;
- Disgybl yn treulio llawer o amser ar ben ei hun.

**Sicrwydd i'r un sy'n cael ei fwlio:**

- Parodrwydd aelod o'r staff i wrando ar gwyn;
- Gweithredu mewn cydweithrediad â'r disgybl;
- Monitro'r canlyniad dros gyfnod o amser;
- Caniatáu i eraill ddod â'r mater gerbron aelod o'r staff.

**Ymdrin â'r un sy'n bwlio:**

- Rhoi cyfle teg i'r disgybl ddweud ei ochr;
- Egluro'r canlyniadau posibl a'r gosb;
- Rhoi cosb yn ôl canllawiau'r ysgol;
- Pwysleisio mai un cyfle sydd i'w gael cyn ymateb yn fwy difrifol.

**Camau wrth ddelio â bwli:**

Mewn sawl achos o fwlio, yn aml gall y bwli ei hunan fod yn ddioddefwr o fwlio. Mae'n ddyletswydd arnom ni fel ysgol i ddarganfod beth yw'r rhesymau tu ôl i'r bwlio sy'n digwydd. Ar gyfer rhai achosion mwy difrifol o fwlio, yn enwedig rhai sy'n cynnwys poeni rhywiol neu dreisgar, efallai ei bod yn achos ar gyfer amddiffyn plant. (Gwelir y polisi amddiffyn plant.)

Bydd y camau hyn yn rhedeg mewn trefn os bydd angen cymryd cam ymhellach bob tro.

- Un cyfle i newid ei agwedd.
- Cofnodi'r weithred ar SIMS.
- Cysylltu â'r rhieni.
- Monitro ac adolygu y sefyllfa yn rheolaidd.
- Cysylltu â'r llywodraethwyr.
- Cysylltu â swyddogion yn Neuadd y Sir.
- Diarddel y disgybl.

Mae ein Awdurdod Lleol â'r un agwedd tuag at fwlio â'n hysgol ni. Bob blwyddyn, yn ystod mis Tachwedd, ceir wythnos gwrth-fwlio ac mae'r Awdurdod Lleol yn ein hannog yn fawr i wneud gweithgareddau yn ymwneud â bwlio yn ystod yr wythnos hon er mwyn trafod materion sy'n codi yn yr ysgol gyda'r disgyblion. Bob blwyddyn, sicrhawn ein bod ni i gyd yn gwneud gweithgareddau gyda'r disgyblion fel eu bod yn teimlo eu bod yn gallu trafod unrhyw faterion gyda ni fel staff. Os oes unrhyw faterion tebyg yn codi'n ystod y flwyddyn, yn amlwg, trafodwn unrhyw fater gyda'r disgyblion a chyda gweddill y dosbarth yn ôl yr angen.

Ceir wal lles ym mhob dosbarth ac ar y waliau hyn, ceir gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i'r disgyblion a cheir posteri NSPCC a Childline o gwmpas yr ysgol yn ogystal er mwyn i'r disgyblion wybod am rif i'w ffonio os oes angen cyngor pellach arnynt. Gallant hefyd gael mynediad i wefannau defnyddiol eraill ar wefan yr ysgol.

**Cyfrifoldebau ac ystyriaethau ymarferol i wrthsefyll gormes y bwli:**

**Rhieni / Gwarchodwyr:**

Dylai'r rhieni / gwarchodwyr:

- gysylltu â'r ysgol os ydynt yn gwybod neu'n amau bod bwlio'n digwydd;
- annog eu plentyn / plant i beidio bod yn ymosodol tuag at ddisgyblion eraill;
- gefnogi'r ysgol os y bydd angen gweithredu ymhellach.

**Disgyblion:**

Dylai'r disgyblion:

- ymddiried y gwnaiff y staff weithredu os y bydd disgyblion yn cael eu bwlio;
- ddeall bod canlyniad i bob gweithred;
- hysbysu'r staff os ydynt hwy neu un o'u ffrindiau yn cael eu bwlio;
- beidio a sefyll o'r neilltu a gwneud dim pan welant fod bwlio'n digwydd;
- geisio helpu a bod yn garedig i eraill bob amser.

**Staff addysgu ac arolygwyr amser cinio:**

Dylai'r staff:

- sicrhau bod amser i wrando ar ddisgyblion, gan gymryd yr hyn a glywant o ddifrif, a sicrhau na fydd y disgybl yn cael ei waradwyddo nac yn dioddef embaras;
- bod yn ymwybodol o'r mannau yn yr ysgol lle gall ymddygiad treisgar ddigwydd;
- sefydlu cyfleoedd rheolaidd i drafod bwlio yn y dosbarth;
- ganmol ymddygiad da yn rheolaidd;
- archwilio eu hymddygiad eu hunain i sicrhau nad ydynt yn euog o fwlio;
- sicrhau bod popeth a wneir yn cyfleu'r neges nad yw bwlio'n dderbyniol;
- gysylltu â'r rhieni yn syth os oes unrhyw amheuaeth o fwlio'n digwydd.

**Llywodraethwyr:**

Dylai'r llywodraethwyr:

- sicrhau eu bod yn deall ac yn gyfarwydd â'r polisi gwrth-fwlio;
- gefnogi'r staff wrth iddynt weithredu'r polisi;
- chwarae rhan allweddol yn y gwaith o adolygu a chynnal y polisi.

Fel y nodir eisioes, ein gobaith ni yw sicrhau fod Ysgol Gymraeg Cwmbrân yn ysgol hapus lle mae ein disgyblion yn teimlo'n saff ac yn gartrefol. Gobeithiwn yn fawr bod y polisi hwn, ynghyd â systemau a mentrau eraill sy'n bodoli o fewn yr ysgol, yn sicrhau ein bod yn llwyddo gyda'n nod a'n hamcanion.

# <u>Anti Bullying Policy: Summary</u>

(Revised in September 2023)

**Introduction:**

A school should be an environment where a pupil always feels safe and secure. A feeling of 'one happy family' should be created within the school and the pupils should feel that they have an important part to play to maintain that 'family' feeling. As within all families, there will be incidents where pupils fall out or quarrel - this is part of school life and is acceptable. What is not acceptable is a pupil being constantly harassed by another pupil or a group of pupils – this is bullying.

**General Aims:**

1. To create a warm, happy atmosphere within the school where pupils can feel safe and secure.
2. Create awareness in the pupils that we care for them as well as teach them and that there is always someone that is prepared to listen and help.
3. Make parents / guardians aware that there is an 'open door' policy at the school and that we are always prepared to listen to any problem involving their child / children and that we will do our best to deal with any problem immediately.
4. Make the parents / guardians aware of the discipline standards expected at school and the steps taken if these are not adhered to.
5. Ensure that the head teacher is made aware of any complaint of bullying from a pupil or parent / guardian.
6. The head teacher will deal with any bullying incidents initially, hopefully solving the problem. Should the bullying continue, both sets of parents must be contacted in order to discuss further action. If this fails, then we must involve the Governors and the authority with the possibility of suspension or expulsion.
7. All staff must be made aware of the possibility that they may not realise that bullying could be taking place within the classroom or on the yard. They will have to be vigilant regarding any unusual changes in a pupil's behaviour.

These are general guidelines and we hope that we Ysgol Gymraeg Cwmbrân will never need to address them.